CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 2 GORFFENNAF 2019

Presennol

Ei deilyngdod Y Maer – Cyng W T Owen

Cynghorwyr

M V Sarnacki, E R Hughes, I C Thomas, W L Davies, W R Owen, A Hopcyn, E Lovgreen, C Williams, C Larsen, J W Parry, S Sage, R Thomas, D L Jones

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng K Jones , Cyng K Richards, Cyng B Owen

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

- 8 Mehefin – ras y cestyll
- 14 Mehefin – agoriad y stesion
- 15 Mehefin – carnifal
- 18 Mehefin – agor arddangosfa Brabazon Rees
- 21 Mehefin – RAF Valley dadorchuddio'r awyren yn enw Brabazon Rees
- 23 Mehefin – Sul y Naer Penmaenmawr
- 28 Mehefin – Noson gwobrwyo Darts

3. **Datgan Buddiant Personol**

M Sarnacki – cofnodion panel cyllid eitem 5.7
S Sage – cofnodion panel cyllis eitem 5.7
C Williams – cofnodion panel cyllid eitem 5.3 a 5.6

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor 4 Mehefin 2019
ii. Pwyllgor Gwaith 18 Mehefin 2019
Nodwyd bod penodiad ir swydd wedi digwydd yn gynharach yn y noson

iii. Panel Cyllid 25 Mehefin 2019
Cafwyd trafodaeth ar cais 5.7 a cynnig £200
Penderfynwyd
i. Derbyn fel rhai cywir (unfrydol)
ii. Derbyn au mabwysiadau gan nodi bod penodiad wedi digwydd (unfrydol)
iii. Yn dilyn trafodaeth ar cais 5.7 (lle oedd MS a SS allan o'r ystafell) penderfynwyd cynnig £200 o bot eraill iddyn nhw a mabwysiadu holl argymhellion eraill y pwyllgor (unfrydol)

6. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu (unfrydol)

7. Cysoni Cyfrifon
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

8. Llythyr gan W J Matthews a'i Fab
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

9. E-bost Unllais

Parthed Cynrychiolydd Un Llais ar Grŵp Cyfeirio Rhandaliad Betsi Cadwaladr
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

10. Gwasanaeth Cyfreithiol - Etholiad

Rheoliadau Arolwg Dosbarthiadau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio (Etholiadau Seneddol) 2006

Penderfynwyd

Ysgrifennu at Cyngor Gwynedd i holi os oes unrhyw le ar ward Seiont gan bod Ysgol Yr Hendre bellach ddim yn y ward, nodwyd efallai bod Llys Yr Eifl yn werth ystyried , ac hefyd bod Ysgol Santes ddim yn ddelfrydol oherwydd pryderon mynediad i'r anabl , gan hefyd dderbyn ei bod yn anodd cael hyd i unrhyw le arall addas (13 o blaid, 1 ymatal)

11. E-bost gan y Cynghorydd Cai Larsen

Parthed Annibyniaeth i Gymru

Nodwyd bod gorymdaith fawr yn y Dref Gorffennaf 27, a bod ifer o gynghorau cymunedol eraill eisoes wedi datgan eu cefnogaeth i Annibyniaeth i Gymru .

Penderfynwyd

Cefnogi y rhybudd o gynnig (9 o blaid , 1 yn erbyn a 4 yn ymatal)

12. Gwobrau Stryd Fawr 2019

Nododd y clerc bod Hwb yn enwebu Stryd y Plas ac yn edrych am lythyr o gefnogaeth ganddom

Penderfynwyd

I anfon llythyr i gefnogi enwebiad cais hwb (unfrydol)

13.Cwestiynau

Dim

Gorffennodd y cyfarfod am 6.29

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....